# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nos Iau, 20fed o Ragfyr 2018.**

**Presennol:-** Cynghorwyr:- Dafydd E Evans (Cadeirydd), Siôn Ifans, Paul Hughes, Deryck Lewis, William N Owen, D Gwyn Jones, Gwenfair Davies, Gareth Jones, Gwen Lloyd

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorwyr:- Aeron Pughe, Aled Griffiths, Gareth Owen, Huw Williams a Iwan P Jones.

**18.88: Datganiadau o diddordeb.**
Dim.

**18.89: Cyflwyno a derbyn cofnodion y Cyfarfod arbenig 03/10/18**
89.1: Gan nad oedd copiau caled o'r cofnodion ar gael, penderfynwyd i dderbyn y cofnodion yma yn y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr.

**18.90: Cofnodion cyfarfod 29ain o Dachwedd 2018.**
90.1: Cynigiwyd fod y cofnodion yn gywir gan William N Owen ac fe eiliwyd gan Paul Hughes.

**18.91: Materion yn codi o'r cofnodion.**
18.86.1: Nodwyd gan Sion Ifans fod Un Llais Cymru wedi derbyn y Datganiad Blynyddol i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.
18.87.1: Cyfeiriodd Deryck Lewis for yr arwydd 30mya wedi ei drwsio yng Nghwm Llinau ond bod dim o'r materion eraill a godwyd wedi derbyn sylw. Cytunwyd i holi'r Cyng Elwyn Vaughan am ddiweddariad yn y cyfarfod nesaf.

**18.92: Precept 2019/20**
92.1: Derbyniwyd e-bost gan y Cyngor Sir yn datgan ei bod nhw nhw angen derbyn manylion precept y Cyngor Cymuned erbyn 25ain o Ionawr 2019. Cynigiwyd gan Gwenfair Davies fod y Cadeirydd Dafydd Evans yn holi'r cyn Glerc am y manylion yma ar gyfer y blynyddoedd blaenorol. Eiliwyd hyn gan William N Owen.

**18.93: Sefyllfa'r awdit**
93.1: Cyflwynodd y Cadeirydd yr adroddiad terfynol a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn unol gyda "Adrannau 24 i 27 o'r Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004". Cyfeiriwyd fod crynodeb or adroddiad wedi ei wneud yn gyhoeddus ers yr 12fed o Ragfyr 2018. Rhestrwyd gan y Cadeirydd y pwyntiau a godwyd o'r adroddiad ac fe nodwyd fod copi electronig (oedd heb ei dderbyn gan y Cadeirydd ar ddyddiad y cyfarfod) i fod i gael ei ddanfon iddo fel fod pob un o'r cynghorwyr yn derbyn copi.
93.2: Cafwyd trafodaeth am y broses a gynhaliwyd ar y 4ydd o Ragfyr o fynd trwy'r gwaith papur a dderbyniwyd gan y cyn Glerc ar ôl ei ymddiswyddiad. Sylweddolwyd fod rhan helaeth o'r gwaith papur yn dal ar goll a bod angen cysylltu gyda'r cyn Glerc i ddarganfod os oedd mwy o ddogfennau i ddod i sylw'r Cyngor.

**18.94: Materion ariannol ac eitemau i'w talu.**
94.1: Adroddod y Cadeirydd ei fod wedi mynychu banc Barclays, Aberystwyth gyda'r cynghorydd Paul Hughes. Cyfeiriodd eu bod wedi gallu trosglwyddo £5000 o gyfri cynilo'r Cyngor i'r cyfri cyfredol. Er mwyn gallu newid cyfeiriad ar y cyfrifon sydd yn y banc nodwyd gan y Cadeirydd fod angen trefnu bancio arlein ac fod ond modd gallu gwneud hyn dros y ffôn.
94.2: Tra yn y banc fe sylweddolwyd ar 3 taliad oedd wedi ei gwneud i mewn i'r cyfri cyfredol o £100 yr un o arian parod (cash). Gwnaethpwyd y taliadau yma gan y cyn Glerc ar yr 23ain ar 30ain o Orffennaf ac ar y 1af o Awst 2018. Nid oes unrhyw gofnod o dderbyn y taliadau yma yn y cofnodion

ar gyfer y cyfnod lle talwyd yr arian i mewn i'r banc. Gan nad oes modd derbyn copiau 'statements' gan y banc ar hyn o bryd, nid oes modd i'r Cyngor allu ymchwilio i mewn i'r taliadau yma.
94.3: Yn dilyn darganfod y taliadau yma fe nododd y Cadeirydd ei fod wedi siarad gyda Deryck Evans o Swyddfa Archwilio Cymru am y mater ac ei fod wedi holi am gopi o'r 'statement' sydd yn dangos y taliadau. Cyfeiriodd y Cadeirydd fod gan y Swyddfa Archwilio Cymru hawl i fynd at y banc a holi am 'statements'.
94.4: Nid oedd eitemau i'w talu.
94.5: Derbyniwyd taliad o £175 am garreg fedd James Paul Campion ym mynwent Darowen.
94.6: Derbyniwyd taliad o £175 am garreg fedd Capt. Lambert ym mynwent Llanwrin.

**18.95: Cynllunio.**
95.1: Cais cynllunio - Pen-y-Graig, Darowen 18/0931/FUL. Cefnogwyd y cais yma. Cynigiwyd gan Gwenfair Davies, eiliwyd gan D Gwyn Jones.
95.2: Cyfeiriodd Sion Ifans at ddogfen oedd wedi ei dderbyn ar e-bost gan y Cyngor Sir yn nodi'r eitemau cynllunio oedd wedi trafod gan Gynghorau Cymuned Powys. Nodwyd fod angen cadarnhad gan y Cyngor Sir beth yn union oedd y ddogfen yn ei ddangos gan fod dau gais cynllunio oedd wedi ei drafod gan y Cyngor Cymuned wedi ei nodi yn anghywir o ran penderfyniad y Cyngor. Cadarnhaodd Sion Ifans y byddai'n cysylltu gyda'r Cyngor Sir i gadarnhau.

**18.96: Clerc y Cyngor**
96.1: Nid oedd cais swyddogol wedi ei dderbyn am swydd y Clerc ers y cyfarfod diwethaf
96.2: Cytunwyd i roi hysbyseb ar Facebook ac i Sion Ifans i ddanfon hysbyseb y swydd i Gwen Lloyd allu rhoi arno. Cynigiwyd gan Gwenfair Davies ac eiliwyd gan Gareth Jones.

**18.97: Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
97.1: Dim adroddiadau

**18.98: Gohebiaeth**
98.1: Derbyniwyd e-bost gan gwmni Gloversure (gwefan y Cyngor) yn nodi fod ei cyfradd talu'r awr yn codi o £47 i £52.
98.2: Derbyniwyd diweddariad gan Hayley Thomas ar y datblygiadau diweddaraf efo Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi. Danfonwyd copi o'r diweddariad yma i'r cynghorwyr ar e-bost.
98.3: Derbyniwyd newyddlen gan SARPA.

**18.99: Unrhyw fater arall.**
99.1: Nid oedd unrhyw fater arall

Caewyd y cyfarfod am 9.00yh

**Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Iau, 31ain o Ionawr 2019 am 7.30yh.**